



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Yr Adroddiad Blynyddol am **GYDRADDOLDEB**

Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru  
2016–17

# Cynnwys

## Rhagair gan y Gweinidog \_\_\_\_\_ 4

Neges gan Julie James AC yn dangos pwysigrwydd gwaith Llywodraeth Cymru i wella cydraddoldeb yng Nghymru a'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma.

## Pennod 1 – Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb \_\_\_\_\_ 6

### Polisi a Deddfwriaeth 6

Enghreifftiau o gyfnod adrodd 2016-17 sy'n dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn cael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, ac yn meithrin perthnasau da. Mae'n rhoi gwybodaeth am yr hyn yr ydym wedi'i wneud o ran polisi, deddfwriaeth a chyllid. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- ▶ Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 6
- ▶ Y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 6
- ▶ Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol 7
- ▶ Cynyddu nifer y merched sy'n astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) 7
- ▶ Y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 8

### Cyllid 8

- ▶ Rhaglenni Cyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant 8
- ▶ Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith 10
- ▶ Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop 10

## Pennod 2 – Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru \_\_\_\_\_ 12

### Ymgysylltu 12

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i geisio barn pobl y gallai ein penderfyniadau effeithio arnynt. Mae'r ddyletswydd hon i ymgysylltu yn rhoi cymorth a chynghor arbenigol inni er mwyn deall y prif broblemau a'r rhwystrau y mae pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu. Ymhlith enghreifftiau o'n gwaith ymgysylltu yn 2016-17 mae:

- ▶ Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd 12
- ▶ Y Cynnig Gofal Plant 14

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb 15

Mae gennym ddyletswydd i asesu sut y mae ein polisiau a'n prosesau yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig, ac i fonitro unrhyw broblemau y gallai fod angen rhoi sylw iddynt drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb. Rydym yn gwneud hyn drwy gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'r adran hon yn esbonio ein prosesau yn hyn o beth, ein trefniadau monitro, a'n dull o asesu proses cyllideb Llywodraeth Cymru.

## Caffael 16

Mae gofyn inni roi sylw i faterion cydraddoldeb wrth wneud gwaith caffael cyhoeddus. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae ein polisiau caffael yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiaidau o ran cydraddoldeb.

## Y Sail Dystiolaeth 17

Mae sail dystiolaeth ddigonol yn ein helpu i roi ystyriaeth lawn i'r amcanion a geir yn y ddyletswydd gyffredinol. Mae'r adran hon yn dangos pa ffynonellau gwybodaeth am gydraddoldeb a ddefnyddiwn yn sail i'n polisiau a'n penderfyniadau.

## Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol 18

Mae'r adran hon yn dangos sut y mae gwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hawliau dynol yn destun craffu ar lefel ryngwladol.

## Pennod 3 – Yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 19

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dangos y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn sgil y camau yr ydym wedi'u cymryd hyd yma.

### Amcanion Cydraddoldeb 2016 – 2020 19

#### Crynodeb o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn 2016-17 21

#### Edrych yn ein Blaenau 25

## Atodiad 1 – Ein dyletswyddau cyfreithiol 26

# Rhagair gan y Gweinidog

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru am Gydraddoldeb, a hwnnw'n rhoi sylw i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf am Gydraddoldeb sydd wedi'i seilio ar ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 – 2020.

---

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at ystod eang o gamau sy'n cael eu cymryd ar draws y Llywodraeth er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae'r camau gweithredu hyn yn rhan o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r nodau llesiant a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn enwedig y nod i greu Cymru sy'n wlad fwy cyfartal. Mae'r nodau llesiant yn rhoi dull hirdymor ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac mae hynny'n hanfodol wrth inni nesáu at gyfnod na welwyd ei fath o'r blaen yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd, a'r rheini wedi'u datblygu ar ôl ymgynghori a cheisio barn pobl ledled Cymru. Maent yn berthnasol i holl gwmpas portffolios Llywodraeth Cymru, ac yn arwydd o ymrwymiad pob Gweinidog i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno ei bod yn bwysig cynnal momentwm mewn meysydd pwysig. Gan hynny, mae chwech o'r wyth amcan yn barhad o'n hymrwymiad i weithio yn y meysydd hyn. Rydym wedi ychwanegu dau amcan arall sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol a threchu tlodi.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 ym mis Rhagfyr 2016. Cynllun yw hwn sy'n dangos pa gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb ac i roi sylw i'r anghydraddoldebau hirdymor sydd wedi'u gwreiddio yn ein cymdeithas.

Yn ystod 2016-17, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny yng nghyd-destun galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus

o ansawdd da, y pwysau yn sgil cyni parhaus, a phleidlais y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd am ddegawdau wedi bod o fudd i sawl agwedd ar fywydau dyddiol pobl yng Nghymru, gyda chorff sylweddol o ddeddfwriaeth wedi'i ddatblygu i ddiogelu llesiant cymdeithasol. Yr egwyddor sy'n llywio ein polisi yw na ddylai gadael yr Undeb Ewropeaidd leihau mewn unrhyw fodd y pwyslais a roddwn ar hyrwyddo cydraddoldeb a herio gwahaniaethu lle bynnag y bydd hwnnw'n bodoli.

A ninnau'n wynebu heriau newydd wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl hollbwysig er mwyn rhoi sefydlogrwydd a chreu gweledigaeth glir ar gyfer Cymru. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu, *'Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021'*. Roedd y ddogfen hon yn amlinellu'r ymrwymadau y byddwn yn eu cyflawni dros dymor y pumed Cynulliad er mwyn gwella a gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl Cymru. Mae'n dangos sut y byddwn yn creu mwy o swyddi a swyddi gwell drwy economi gryfach, decach; sut y byddwn yn gwella ac yn diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus; a sut y byddwn yn creu Cymru gynaliadwy, unedig a chysylltiedig.

Mae *'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol'* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn rhoi sylw i'r ymrwymadau hynny, yn eu gosod yn eu cyd-destun hirdymor, ac yn dangos sut y byddant yn cael eu cyflawni drwy gyfuno ymdrechion holl sector cyhoeddus Cymru.

Efallai fod y cyfnod adrodd hwn wedi bod yn gyfnod o newid, ond bu'n gyfnod o gynnydd i Lywodraeth Cymru hefyd. Mae'r camau

gweithredu yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn adlewyrchu'r gwaith sy'n parhau i gael ei wneud i sicrhau bod Cymru yn wlad decach.

Er enghraifft, nod Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yw gwedddnewid y system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r Bil yn disgrifio dull o weithio lle rhoddir blaenoriaeth i'r hyn y mae pob plentyn a pherson ifanc yn ei ddysgu. Gan sicrhau bod y dysgwyr yn ganolog i'r broses, bydd y system yn fwy teg a syml o lawer, ac yn achosi llai o wrthdaro.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016 – 2021 yn datblygu ar y cynnydd a wnaethom gyda'n gilydd hyd yma, ac mae'n blaenoriaethu gwaith ym maes atal, amddiffyn a rhoi cymorth, yn unol â diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r Strategaeth yn rhan o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu Cymru

y gall pawb fyw ynnddi heb ofn, a hynny mewn perthnasau a chymunedau diogel a chyfartal, heb orfod wynebu trais.

Mae Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017– 2020 yn ariannu saith asiantaeth arweiniol i roi cymorth i unigolion a chymunedau drwy Gymru, a hynny ym meysydd rhywedd (WEN Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Tros Gynnal Plant); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru); cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (Stonewall Cymru); hil (EYST) a throseddau casineb (Cymorth i Ddioddefwyr Cymru). Mae'r rhaglen yn cefnogi gwaith pwysig gan y trydydd sector, gan gynnwys grwpiau cymunedol, wrth gyfrannu at roi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a'r amcanion llesiant ar waith.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn flaenoriaeth o hyd i Lywodraeth Cymru. Mae cydraddoldeb yn rhan o anian y Llywodraeth hon, ac mae'n parhau i ddylanwadu ar bopeth a wnawn.



**Julie James AC**

Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip

# Pennod 1 – Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae'r bennod hon yn rhoi enghreifftiau o gyfnod adrodd 2016-17 sy'n dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn cael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, ac yn meithrin perthnasau da.

Mae'r bennod yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Polisi a deddfwriaeth
- Cyllid

Mae rhagor o wybodaeth am sut y mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol i'w gweld yn Atodiad 1.

## Polisi a Deddfwriaeth

### Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Ym mis Rhagfyr 2016, cyflwynodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Diben y Bil a'r Rhaglen Trawsnewid ehangach yw diwygio a gwella'r system ddeddfwriaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, cyfeirir at y dysgwyr hyn fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau ac/neu anabledau dysgu. Y farn yw bod y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer cefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro. Nid yw ychwaith yn canolbwyntio ddigon ar y dysgwyr eu hunain.

Amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru yw creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn rhwng 0 a 25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion neu addysg bellach
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol

- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Ymgynghorwyd yn helaeth ar Fil drafft yn ystod 2015-16. Yn 2016-17, cyhoeddwyd crynodeb gennym o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cyn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn mireinio'r ddeddfwriaeth cyn ei chyflwyno i'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 2016.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddwyd drafft pellach o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyhoeddwyd y Cod drafft hwn er mwyn gallu craffu'n well ar y Bil, a deilliodd hyn o raglen waith sylweddol gyda phartneriaid er mwyn datblygu'r drafft ymhellach.

Drwy gydol 2016-17, bu gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio ac i baratoi at gyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi pecyn ariannu o £20 miliwn ar gyfer Rhaglen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid er mwyn paratoi at weithredu'r Bil.

### Y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 2021

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015, ac ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, sef un o'r prif ffyrdd o roi'r Ddeddf ar waith.

Diben y Ddeddf yw gwella:

- y trefniadau ar gyfer **atal** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- y trefniadau ar gyfer **amddiffyn** pobl rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- y **cymorth a roddir** i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Fframwaith Cyflawni 2016 – 2021, a hynny ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig. Mae'r Strategaeth yn cynnwys chwech o amcanion sy'n datblygu ar y cynnydd a wnaethom gyda'n gilydd hyd yma, gan flaenoriaethu gwaith ym maes atal, amddiffyn a rhoi cymorth, yn unol â diben y Ddeddf.

Byddwn yn cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau blynyddol er mwyn dangos pa mor effeithiol ydym wrth gyflawni'r amcanion a geir yn y Strategaeth Genedlaethol, a dangos i ba raddau yr ydym yn cyflawni diben y Ddeddf.

---

## Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, yn dangos sut yr ydym yn mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol i gydraddoldeb a chynhwysiant, er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael yr un cyfleoedd â phawb arall. Mae'n cynnwys y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu, a phobl anabl eu hunain oedd wedi nodi'r rhain; maent yn cynnwys trafndiaeth, tai, mynediad i adeiladau a llefydd, a chyflogaeth.

Ddiwedd 2016, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y dylid adolygu'r Fframwaith a'i ddiweddarau er mwyn inni barhau i fynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf o ran anghydraddoldeb i bobl anabl o bob

oed yng Nghymru. Sefydlwyd grŵp llywio o randdeiliaid ym maes anabledd, gan fynd ati ddechrau 2017 i geisio barn pobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Y nod yw cyhoeddi fersiwn newydd o'r Fframwaith ddechrau 2018.

---

## STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) mewn Addysg a Hyfforddiant – cynyddu nifer y merched sy'n astudio pynciau STEM

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg mewn Addysg a Hyfforddiant: Cynllun Cyflawni i Gymru. Mae'n rhoi pwyslais amlwg ar y rhywiau, ac mae ynddo nifer o gamau gweithredu penodol sy'n ymwneud â'r rhywiau. Mae llawer o'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn argymhellion yr adroddiad Menywod Dawnus. Mae'r camau gweithredu a geir yn y Cynllun Cyflawni yn ceisio rhoi sylw i gydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth edrych ar gynnydd dysgwyr mewn pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg mewn addysg a hyfforddiant. Y nod yw bod sgiliau yn y meysydd hyn yn cael eu trosglwyddo o ysgolion i economi Cymru, a bod mwy o ferched yn dilyn gyrfaedd a chysiau addysg bellach yn y meysydd STEM.

Yn sgil camau a gymerwyd yn 2016-17, roedd cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn nodwedd yn holl raglenni cyllido perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cyllid a roddwyd i Techniquet, Technocamps, y Sefydliad Ffiseg, y Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gynlluniau hefyd i sefydlu Rhwydweithiau Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg (NNEST) a Mathemateg (NNEM). Bydd gan NNEST a NNEM rôl arweiniol ym maes dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r pynciau STEM, a hynny fel rhan o genhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer

addysg. Byddant yn manteisio ar arbenigedd y Consortia Addysg Rhanbarthol, y sefydliadau addysg bellach, ymarferwyr a phartneriaid allweddol eraill wrth wneud hyn. Byddant yn mynd ati o'r newydd i helpu ymarferwyr i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth yn y pynciau STEM, gan gynnwys edrych ar y cymorth a roddir i'r rhywiau penodol drwy ddulliau o addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar ymchwil.

Mae'r dull hwn o weithio, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy nifer o raglenni, yn galw am newidiadau sylweddol, ac mae'n rhoi negeseuon cyson i randdeiliaid Llywodraeth Cymru ynghylch pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran addysg a hyfforddiant yn y meysydd STEM.

---

## Y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig gennym ym mis Tachwedd 2016. Roedd hwn yn datblygu ar ein cynllun gweithredu cyntaf a gyhoeddwyd yn 2008. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Strategol er mwyn ymateb i'r hyn y mae pobl sydd ag awtistiaeth, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, wedi dweud sy'n bwysig iddynt hwy. Buom yn gweithio hefyd gydag ystod eang o randdeiliaid er mwyn canfod themâu a chamau gweithredu a ddylai fod yn flaenoriaeth, ac a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth.

Nod y Cynllun Gweithredu Strategol yw sicrhau bod modd deall anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth, ynghyd ag anghenion eu teuluoedd a'u gofalwyr, a hynny er mwyn gwella'u llesiant a'u helpu i fyw bywydau cyflawn. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn cynnwys camau y dylid eu cymryd i wella tri maes sy'n flaenoriaeth:

- cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant
- asesu a diagnosis
- ateb anghenion cymorth.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol gennym ar gyfer Gwasanaeth

Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd, a hynny er mwyn cefnogi pobl sydd ag awtistiaeth, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, os nad oes modd iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau statudol presennol gan nad ydynt yn gymwys o dan y meini prawf.

Bydd y gwasanaeth awtistiaeth integredig yn helpu rhieni a gofalwyr drwy roi cyngor a chefnogaeth, drwy gyfeirio pobl at wasanaethau eraill, a thrwy ddarparu rhaglenni ar gyfer pobl ifanc. Bydd oedolion sydd ag awtistiaeth hefyd yn gallu cael cymorth gan y gwasanaeth, heb orfod cael eu cyfeirio gan rywun arall.

---

## Cyllid

---

### Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014 – 2017

Mae ein hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a thegwch hefyd wedi'i adlewyrchu yn ein Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Grant tair blynedd oedd hwn, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2014, ac roedd y rhaglen yn rhoi cyllid i un ar bymtheg o sefydliadau'r trydydd sector er mwyn eu helpu i gyrraedd grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, ac er mwyn rhoi hwb i unigolion a chymunedau yng Nghymru drwy wneud gwelliannau gwirioneddol i'w bywydau.

Mae'r cyllid wedi cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb oherwydd ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl sy'n aml wedi'u heithrio, o dan anfantais ac yn wynebu gwahaniaethu. Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi'r gwaith pwysig y mae'r trydydd sector yn ei wneud wrth gyfrannu at gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Rhannwyd y cyllid yn weddol gyfartal ar draws y nodweddion gwarchoddedig a'r Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â sicrhau ei fod wedi'i wasgaru'n eang yn ddaearyddol.

Daeth y rhaglen tair blynedd i ben ym mis Mawrth 2017, gyda phob un o'r 16 prosiect a gyllidwyd o dan y grant yn cyflawni eu hamcanion yn llwyddiannus. Mae disgwyl cwblhau gwerthusiad o'r rhaglen yn 2017-18.



## Astudiaethau Achos

### Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru

Rhwng 2014 a 2017, cafodd Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru gyllid o £211,910 drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a throseddau casineb. Yn sgil hyn, llwyddwyd i ganfod pobl hŷn oedd wedi dioddef o gam-drin domestig a throseddau casineb, a'u galluogi i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd y prosiect yn cefnogi'r bobl hŷn drwy eiriolwr cam-drin domestig arbenigol i bobl hŷn ac/neu weithiwr cymorth prosiect, gan ofalu bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed, a bod eu hawliau dynol yn cael eu parchu.

Cyfeiriwyd 455 o bobl at y prosiect yn ystod y 3 blynedd; y targed oedd 360.

### Cwmni Theatr Taking Flight

Rhwng 2014 a 2017, cafodd Cwmni Theatr Taking Flight gyllid o £251,809 drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant er mwyn paratoi a chreu cynhyrchiad theatr (Real Human Being) a fyddai'n rhoi sylw i droseddau casineb. Byddai'r cynhyrchiad yn cael ei berfformio i ddisgyblion Blwyddyn 9 ledled Cymru.

Roedd Real Human Being yn mynd i'r afael â barn pobl am anabledd mewn ysgolion, gan weithio'n uniongyrchol gyda dros 9000 o ddisgyblion Blwyddyn 9 dros y tair blynedd. Enillodd y prosiect un o wobrau'r Gwobrau Amrywiaeth Cenedlaethol, ynghyd â gwobr degfed pen-blwydd Cynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr am newid bywydau.

### Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017 – 2020

Ar ôl ymgynghori a gwneud gwaith datblygu yn 2015-16, lanswyd rownd newydd o gyllid o dan y Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017 – 2020. Nod y rhaglen yw helpu i gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016 – 2020, gan gynnwys rhoi sylw i nodweddion gwarchoddedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Wrth i'r rhaglen fwrw yn ei blaen, byddwn yn rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd o'n gwerthusiad o rownd gyllido 2014 – 2017, sef gwerthusiad a fydd yn cael ei gwblhau yn 2017-18.

Mae'r rhaglen yn cynnig Grant Cydraddoldeb i sefydliadau cynrychioladol ym maes rhywedd; hil; cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhyw (LGBT+); ac anabledd. Mae'n cynnig Contract Cynhwysiant i brosiectau ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr; ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr; a throseddau casineb. Roedd modd gwneud ceisiadau am y grant cydraddoldeb o fis Gorffennaf 2016, a cheisiadau am brosiectau cynhwysiant yn

ddiweddarch yn 2016. Yn y naill achos a'r llall, buom yn rhoi cymorth a chynghor helaeth i ymgeiswyr posibl, a hynny ar-lein, wyneb yn wyneb, a thrwy ddiwyddiadau gwybodaeth a rhwydweithio.

Buom hefyd yn annog pobl yn gryf i weithio mewn partneriaeth ac i gydweithio o dan y rhaglen hon. Er enghraifft, roedd digwyddiad rhwydweithio ym mis Medi 2016 ar gyfer y contract cynhwysiant yn cynnwys sesiwn gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, a roddodd gyngor am geisiadau ar y cyd a chynnig cymorth i gyflenwyr a oedd yn dymuno gwneud cais o dan gonsortia.

Cyhoeddwyd y canlyniadau ar gyfer y Grant Cydraddoldeb ym mis Rhagfyr 2016 a'r canlyniadau ar gyfer y Contract Cynhwysiant ym mis Chwefror 2017. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynol gyda'r saith sefydliad arweiniol ym mis Chwefror/Mawrth 2017, cyn cynnal digwyddiad rhwydweithio ar 30 Mawrth. Roedd y sefydliadau cydraddoldeb a chynhwysiant, y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol a rhanddeiliaid mewnol ac allanol pwysig eraill i gyd yn bresennol.

Dangosodd hyn mai'r bwriad oedd i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd weithio mewn ffordd strategol a chydlynol, gan roi cyngor a chymorth i ddinasyddion a sefydliadau cymunedol ledled Cymru, a hynny mewn sawl maes eang sy'n ymwneud â chydaddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol.

---

## Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith

Yn 2014, cyhoeddodd Estyn gasgliadau ei adolygiad, 'Rhwystrau rhag prentisiaeth'. Comisiynwyd yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru er mwyn bod yn sail i ddatblygu rhagor o ganllawiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, ac er mwyn lledaenu astudiaethau achos o arferion da ar draws y rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd ag anableddau rhag bod yn rhan o'r rhaglen brentisiaethau yng Nghymru. Roedd yr adolygiad hefyd yn rhoi sylw i broblemau wrth stereoteipio ar sail rhyw mewn sectorau galwedigaethol a oedd yn cynnig prentisiaethau.

Yn 2016-17, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i greu Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn rhoi strwythur i gefnogi'r rhwydwaith o ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a'u cynorthwyo i gynyddu nifer yr unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig sy'n dilyn prentisiaethau. Y nod oedd newid diwylliant er mwyn croesawu amrywiaeth a sicrhau bod pobl o gefndiroedd ehangach yn cymryd rhan yn y rhaglen brentisiaethau.

Drwy gydol 2016-17, bu'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau er mwyn dangos i'r gymuned ehangach yr hyn sydd gan y sector Dysgu Seiliedig ar Waith i'w gynnig. Y nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau ymhlith cynulleidfaoedd newydd.

Bob chwarter, byddai'r Hyrwyddwr yn cadeirio cyfarfodydd ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r rhwydwaith o ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith drwy Gymru, a gwahoddwyd siaradwyr gwadd o sefydliadau fel Chwarae Teg, RNIB a'r Romani Cultural and Arts Company i roi cyflwyniadau ac i ystyried opsiynau ar gyfer cydweithio.

Casglodd yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyfres o achosion achos ynghyd hefyd, a'r cyfan ohonynt yn rhoi pwyslais ar nodweddion gwarchoddedig. Gallai darparwyr a Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r rhain wrth hyrwyddo'r rhaglen brentisiaethau.

Mae'r Hyrwyddwr wedi sefydlu rhwydwaith o sefydliadau ar gyfer ymgysylltu ym maes cydraddoldeb. Sefydliadau yw'r rhain sydd â phrofiad o weithio gyda grwpiau gwarchoddedig a gall y darparwyr ofyn am eu cymorth pan fydd galw. Yn eu plith mae Chwarae Teg, Diverse Cymru, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, Anabledd Wales, Remploi, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Mind Cymru a llawer mwy.

Mae rôl yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn sicrhau bod ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod pobl o gefndiroedd ehangach yn gallu bod yn rhan o'r rhaglen brentisiaethau.

---

## Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y cymorth y mae grwpiau allweddol yn ei roi i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru. Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 – 2020 yn datblygu ar lwyddiant y rownd gyllido flaenorol.

Mae'r rhaglenni yng Nghymru wedi cael eu datblygu ar sail tair blaenoriaeth:

- **Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy** yw prif ddull y Gronfa o drechu tlodi, gan ganolbwyntio ar roi cymorth i'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael gwaith cynaliadwy neu i ddychwelyd i waith cynaliadwy.
- Mae **sgiliau ar gyfer twf** yn ymwneud â gwella lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i'r gwaith, ymhlith y rheini sy'n rhan o'r gweithlu. Mae'n cefnogi gwaith ym maes ymchwil ac arloesi ymhlith graddedigion a gwaith i wella sefyllfa menywod yn y farchnad lafur.
- Mae **cyflogaeth a chyrraeddiant ymhlith pobl ifanc** yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc sy'n wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET), gwella lefelau

cyrhaeddiad yn y pynciau STEM, ac uwchsgilio gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant (yn y gorllewin a'r Cymoedd). Mae'r flaenoriaeth hon yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant,

ac sydd mewn grwpiau targed penodol. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys rhieni sengl, pobl ifanc sydd ag anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, a'r rheini sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol neu'n ddigidol.

## Astudiaethau Achos

### Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid ac Ysbrydoli i Gyflawni

Mae cymorth i bobl ifanc o dan y flaenoriaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth a chyrhaeddiad ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddarparu drwy brosiectau fel Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid, o dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol fel Ysbrydoli i Gyflawni yn y de-ddwyrain. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar roi cymorth i'r rheini sy'n wynebu risg o adael y byd addysg. Mae'r prosiectau'n mentora ac yn hyfforddi er mwyn eu helpu i ddod yn ôl yn rhan o ddarpariaeth addysg brif ffrwd neu fodolau eraill o dan y cwricwlwm.

### Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n arwain y prosiect Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid, ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant ac sydd mewn grwpiau targed penodol. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys rhieni sengl, pobl ifanc sydd ag anableddau a chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, cyn-droseddwy'r a phobl ifanc o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r bobl ifanc yn cael cefnogaeth a hyfforddiant a hyd at 26 wythnos o brofiad gwaith gyda chyflog. Caiff y prosiectau eu darparu drwy grantiau a roddir i sefydliadau, Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn y trydydd sector ond gall sefydliadau cyhoeddus hefyd wneud cais. Mae dwy gangen i'r cyllid sydd ar gael:

- **Cynnwys:** sy'n golygu ymgysylltu â'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- **Cyflawni:** sy'n ceisio rhoi profiad gwaith gyda chyflog a chefnogaeth am hyd at 26 wythnos.

Prosiect 4 blynedd yw Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid, ac fe'i cymeradwywyd ym mis Ebrill 2016. Bydd yn gweithio gyda 6,285 o gyfranogwyr ar draws Cymru, a chyfanswm y gost fydd £12.9 miliwn, gyda chyd-fuddsoddiad o £7.8 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

### Ysbrydoli i Gyflawni

Nod Ysbrydoli i Gyflawni yw lleihau nifer y rheini rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Mae'r prosiect ar waith ar draws rhanbarth y de-ddwyrain. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n arwain y prosiect yn ardal Rhaglen y Gorllewin a'r Cymoedd, a Chyngor Dinas Casnewydd sy'n ei arwain yn ardal y Dwyrain.

Mae'r prosiect yn rhoi pwyslais amlwg ar ganfod a chefnogi'r bobl ifanc hynny sydd â'r risg fwyaf o adael y addysg, a hynny mewn ysgolion uwchradd ac addysg bellach. Mae Ysbrydoli i Gyflawni yn ymyrryd yn gynnar er mwyn ceisio canfod rhwystrau unigol a chymryd camau i gefnogi pobl er mwyn lleihau'r risg y byddant yn gadael y byd addysg. Mae dull holistig yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i'r modd y mae pobl yn pontio rhwng yr ysgol ac addysg bellach, gyda phartneriaeth wedi'i chreu rhwng awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a cholegau addysg bellach yn y rhanbarth.

Dechreuodd y prosiect yn y Gorllewin a'r Cymoedd ym mis Tachwedd 2015, a'r prosiect yn y Dwyrain ym mis Ebrill 2016. Prosiectau tair blynedd yw'r naill a'r llall, yn gweithio gyda bron i 11,000 o bobl ifanc. Cyfanswm cost y prosiect yw mymryn dros £28 miliwn, gyda grant o £18.2 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

# Pennod 2 – Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r camau a gymerwyd gennym i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, a hynny o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae rhagor o wybodaeth am y rheoliadau hyn i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r meysydd allweddol canlynol, o dan y penawdau hyn:

- Ymgysylltu
- Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Caffael
- Y Sail Dystiolaeth
- Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol

## Ymgysylltu

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn darparu bod yn rhaid i gyrff y sector cyhoeddus gynnwys pobl sydd yn eu barn hwy yn cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchoddedig ac sydd â diddordeb yn y modd y mae'r awdurdod dan sylw yn cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd hon i ymgysylltu yn rhoi cymorth a chynghor arbenigol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi ddeall y prif broblemau a'r rhwystrau y mae pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon

wedyn i gyflawni amcanion cyffredin. Bydd yn helpu hefyd i wneud gwell penderfyniadau, er enghraifft wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau a phennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Gydol y flwyddyn, mae Gweinidogion Cymru'n ymgysylltu'n rheolaidd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd niferus gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, a hynny er mwyn deall eu blaenoriaethau a pha heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu fforymau er mwyn ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
- Fforwm Cymunedau Ffydd
- Fforwm Hil Cymru
- Bwrdd Cydraddoldeb Strategol
- Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

## Astudiaethau Achos

### Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd

Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016, er mwyn ymateb i ymrwymiad maniffesto yn dilyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a refferendwm yr Undeb Ewropeaidd. Mae sawl Gweinidog yn rhan o'r tasglu, yn ogystal ag ystod o arbenigwyr o'r sector cyhoeddus, y sector

preifat a'r trydydd sector sydd wedi'u dewis nid yn unig am eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd ond hefyd gan eu bod naill ai'n byw neu'n gweithio yn y Cymoedd.

Mae blaenoriaethau lefel uchel y tasglu i'w gweld yn y ddogfen 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi o'r radd flaenaf a'r sgiliau i wneud y gwaith hwnnw; gwasanaethau cyhoeddus gwell; a llesiant personol a llesiant cymunedol.

Yn ystod 2016-17, buom yn gwneud gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn datblygu cynllun cyflawni manwl a fyddai'n cael ei lansio ym mis Tachwedd 2017. O'r dechrau'n deg, roedd y tasglu'n gryf ei farn y dylai unrhyw flaenoriaethau neu gynlluniau fod wedi'u seilio ar waith ymgysylltu â chymunedau'r Cymoedd. Rhoddodd y tasglu gyfarwyddyd clir y byddai'r gwaith hwn yn golygu cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector, ond yn bwysicach na dim, yn golygu cydweithio hefyd â'r cymunedau y mae'r fenter i fod i'w gwasanaethu. Trefnodd arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru raglen ymgysylltu ddwys mewn cymunedau ledled y Cymoedd a chyda rhanddeiliaid ehangach.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Cyfres o sesiynau thematig i ganfod beth oedd y materion pwysicaf, y prif heriau a'r prif rwystrau i wahanol grwpiau, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion penodol a nodweddion gwarchoddedig. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau gyda phobl ifanc, athrawon, rhieni, rhieni sy'n mynd â'u plant i leoliadau Dechrau'n Deg, a thenantiaid cymdeithasau tai, gyda phwyslais mawr ar bobl hŷn a'r rheini sydd â phroblemau mynediad. Cynhaliwyd sesiynau hefyd gyda busnesau a chyflogwyr, darparwyr addysg uwch a grwpiau anabled. Sicrhwyd pawb a fyddai'n bresennol y byddai modd ateb eu hanghenion o ran mynediad neu iaith ym mhob digwyddiad. Roedd pob lleoliad yn hygyrch a chynhaliwyd rhai cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfres o sesiynau ymgysylltu cyhoeddus ac agored ledled y Cymoedd, gyda'r nos, er mwyn i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu neu ymrwymadau gwaith neu addysg allu bod yn bresennol.
- Cyhoeddwyd gwahoddiadau a hysbysebion i'r sesiynau ymgysylltu mewn sawl fformat er mwyn sicrhau eu bod mor gynhwysol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, ar Facebook a Twitter, ond hefyd

cyfathrebu wyneb yn wyneb a gosod posteri yn y cymunedau dan sylw.

- Defnyddio rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli'n barod i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ymgysylltu ymhlith holl aelodau'r gymuned, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau pobl anabl, rhieni, gofalgwyr a grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Comisiynu cwmni ymchwil annibynnol i gynnal cyfres o grwpiau ffocws wedi'u targedu. Dewiswyd pobl i gyfrannu i 12 o grwpiau ffocws a hynny'n benodol i sicrhau trawsdorïad o bobl gan gynnwys gwrywod, menywod, pobl ifanc, pobl hŷn, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl mewn gwaith amser llawn a rhan amser, pobl ddi-waith, graddedigion a'r rheini sydd heb raddio, rhieni sengl a phobl ag anabledau.
- Arolwg ar-lein i ymgysylltu mewn ffordd fwy 'traddodiadol' ond hefyd i alluogi pobl nad oedd yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd cyhoeddus i gyflwyno eu syniadau inni'n ddiogel. Cafodd yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ei gwirio er mwyn sicrhau ei bod yn syml ac yn ddealladwy, a hynny'n ddwyieithog. Cawsom ymatebion gan bron i 1,000 o bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol ac o bob rhan o ranbarth y Cymoedd.

Er mwyn troi canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu yn flaenoriaethau, aethom ati i drefnu cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Defnyddiwyd y gweithdai hyn i drafod y canfyddiadau ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru i droi'r rheini yn gamau gweithredu.

Yn ôl yr adborth cadarnhaol a gawsom am y broses ymgysylltu, roedd cymunedau'r Cymoedd yn teimlo bod eu lleisiau wedi'u clywed a'u bod wedi'u grymuso yn ystod y broses hon, a hynny wedi arwain at gynllun lefel uchel sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned.

# Astudiaethau Achos

## Y Cynnig Gofal Plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar yr wythnos i bobl sy'n gweithio ac yn rhieni i blant 3 a 4 oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd hyn yn datblygu ar yr hawl gyffredinol bresennol yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, sydd eisoes yn rhoi addysg gynnar am ddim i blant 3 a 4 oed am o leiaf 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Nod y cynnig gofal plant yw cyflawni un (neu ragor) o'r nodau canlynol:

- rhoi mwy o gyfleoedd cyflogaeth i rieni, a mamau'n enwedig, gan gynnwys y cyfle i ddychwelyd i'r gwaith
- cynyddu incwm gwario'r rheini sydd mewn gwaith er mwyn lleihau tlodi ymhlith pobl sydd mewn swyddi cyflogau isel
- helpu plant i ddatblygu ac i fod yn barod i fynd i'r ysgol.

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2016 a mis Ebrill 2017, cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu gennym ymhlith 6,000 o rieni a darparwyd gofal plant er mwyn deall eu pryderon a'u hanghenion. Roedd yr adborth o'r ymgyrch honno'n dangos bod costau gofal plant ac effaith hynny ar eu sefyllfa ariannol ac ar ansawdd bywyd yn bryder o bwys i nifer o rieni sy'n gweithio. Bu'r gwaith ymgysylltu uniongyrchol hwn yn sail i'r polisi a luniwyd ac i rai o'r prif benderfyniadau a wnaed ynghylch y cynnig.

Ar yr un pryd, cynhaliwyd gweithdai gydag awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar er mwyn deall gwahaniaethau lleol. Y nod oedd sicrhau y byddai'r penderfyniadau polisi yn ystod blwyddyn gyntaf y profion yn gweithio mewn gwahanol lefydd drwy Gymru.

O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn teilwra'r polisi er mwyn iddo fod o fudd i'r grwpiau canlynol:

- **Menywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith** – buom yn gwrandao ar bryderon rhieni, a mamau'n enwedig, sy'n dweud bod costau gofal plant yn rhwystr sy'n eu hatal rhag dychwelyd i'r gwaith neu wneud newidiadau i'w patrwm gweithio mewn ffordd a fyddai'n gweddu'n well i amgylchiadau'r teulu. Mae'r cynnig gofal plant yn cael ei ddatblygu fel y gall helpu'r rhieni hyn i ddychwelyd i'r gwaith.
- **Teuluoedd ar incwm isel** – mae rhieni sydd ar incwm isel yn ei chael yn anodd iawn fforddio costau gofal plant. Bydd y cynnig yn help i gynyddu incwm gwario pobl sydd eisoes mewn gwaith drwy gael gwared â rhai o'u costau gofal plant, a gall cyllido 30 awr o ofal plant bob wythnos hefyd alluogi rhai rhieni i weithio oriau hirach. Gall hyn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi i gynyddu eu hincwm ac ysgafnhau rhywfaint ar faich ariannol gofal plant.
- **Plant o deuluoedd difreintiedig** – mae'r cynnig gofal plant yn helpu i gyflawni dau o amcanion tlodi plant Llywodraeth Cymru:
  - Defnyddio'r holl ddulliau posibl i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yn wynebu risg benodol o fyw mewn tlodi.
  - Rhoi sylw i broblem gynyddol tlodi mewn gwaith yng Nghymru drwy greu economi a marchnad lafur gref, a'r rheini'n rhoi hwb i'r agenda trechu tlodi.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fel yn achos cyrff cyhoeddus penodol eraill o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, pan fydd Llywodraeth Cymru yn creu polisiau ac arferion arfaethedig, yn penderfynu adolygu'r rheini, neu'n cynnig eu newid, rhaid iddi gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â grwpiau gwarchoddedig.

Wrth iddynt wneud penderfyniadau, asesu effaith polisiau ac arferion ar grwpiau gwarchoddedig yw un o'r prif ffyrdd sydd gan awdurdodau cyhoeddus o ddangos eu bod wedi ystyried yr angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; eu bod wedi ystyried sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini sydd heb y nodweddion hynny; a'u bod wedi ystyried sut i feithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau gwarchoddedig. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn help i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r ddyletswydd hon. Mae ein trefniadau i asesu effaith hefyd yn rhan bwysig o'r hyn a wnawn i gyflawni ein dyletswydd o dan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn Llywodraeth Cymru

Mae proses Llywodraeth Cymru i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn golygu gweithio mewn ffordd ffurfiol, systematig a thrylwyr i ddadansoddi polisiau, arferion, cynlluniau gweithredu a phrosesau'r gyllideb, boed y rheini'n arfaethedig neu'n bodoli'n barod. Mae'r dull strwythuredig hwn yn canfod ac yn cofnodi a fydd y polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'n golygu cymryd camau i gael gwared ar yr effeithiau negyddol neu eu lleihau pan fydd hynny'n bosibl. Mae asesiadau o'r effaith hefyd yn chwilio am gyfleoedd i greu mwy o gyfleoedd cyfartal.

Mae dull systematig Llywodraeth Cymru o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sicrhau bod ein polisiau a'n harferion yn ateb anghenion pobl Cymru'n well.

### Tystiolaeth

Thema glir sy'n deillio o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy'r sefydliad, a hynny ar gyfer penderfyniadau ar y gyllideb a pholisiau ill dau, yw'r diffyg tystiolaeth sy'n aml yn bodoli ar gyfer nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys crefydd a ffydd, a grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Ni ddylid tybio bod diffyg tystiolaeth yn golygu nad yw'r grŵp dan sylw'n wynebu unrhyw anghydraddoldebau. Efallai mai prin iawn yw'r dystiolaeth sydd gennym (fel sy'n wir fel rheol am hunaniaeth pobl o ran rhyw), neu fod y dystiolaeth sy'n bodoli wedi'i seilio ar samplau sy'n rhy fychan neu'n anghynrychioladol er mwyn iddi fod yn berthnasol i'r boblogaeth ehangach yn gyffredinol. Un o'r gofynion wrth gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw nid yn unig amlinellu'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd, ond hefyd cydnabod a nodi pryd y bydd diffyg tystiolaeth. Wrth weld y duedd o fylchau yn y dystiolaeth ar gyfer y nodweddion hyn, mae adrannau'n ceisio casglu tystiolaeth wrth werthuso a monitro polisiau gan ganolbwyntio ar y grwpiau gwarchoddedig.

### Monitro Effaith ein Polisiau a'n Harferion

Mae Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff a restrir sicrhau eu bod yn parhau i fonitro effaith eu polisiau ar ôl cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Asesiadau byw, rhyngweithiol a pharhaus yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n para oes y penderfyniad neu'r polisi, ac mewn rhai achosion, yn para y tu hwnt i hynny hefyd. Yn Llywodraeth Cymru, wrth gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, datblygir cynllun gweithredu a gosodir dyddiad adolygu. Pan ddaw'r dyddiad adolygu, rhaid ailystyried a gwerthuso'r asesiad gwreiddiol o'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig.

Pan ganfyddir effeithiau newydd, neu pan fydd tystiolaeth wedi'i chasglu sy'n cyd-fynd â'n hasesiad gwreiddiol o'r effaith, caiff y rhain eu hymgorffori yn yr asesiad.

---

## Asesiad o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb

Roedd ein dull o gynnal Asesiad o Effaith y Gyllideb wedi'i seilio ar argymhellion gan ystod o randdeiliaid gan gynnwys Pwyllgorau'r Cynulliad, Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ddogfen ac iddi fwy o ffocws, gan roi trosolwg strategol o effeithiau'r prif newidiadau yn y gyllideb. Mae mwy o bwyslais ar asesu sut y mae cynigion yn effeithio'n wahanol ar grwpiau amrywiol yn ein cymdeithas, pan fydd yr effeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol. Prif fantais y dull integredig hwn yw ei fod yn ystyried effaith penderfyniadau gwariant ar yr holl grwpiau gwarchoddedig. Drwy wneud hynny mewn ffordd gynhwysol, rydym wedi gallu datblygu dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng y meysydd pwysig hyn.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried effaith ein penderfyniadau gwariant ar y naw nodwedd warchoddedig ynghyd ag effeithiau ar y Gymraeg, hawliau plant, trechu tlodi ac anfantais gymdeithasol-economaidd, a'r rheini wedi'u dwyn ynghyd o dan fwa datblygu cynaliadwy a llesiant. Rydym hefyd wedi rhoi sylw i effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i pholisïau cyni.

## Caffael

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £6 biliwn bob blwyddyn ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan gyflenwyr. Mae'n bwysig bod pob punt a gaiff ei gwario'n cael ei gwario'n gall, gan sicrhau'r gwerth gorau i bobl Cymru.

---

### Ein Polisi Caffael

Drwy gydymffurfio â rheoliad 18 yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae Gweinidogion

Cymru yn sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau a gaiff eu caffael yn addas i'w diben ac felly'n sicrhau eu bod yn ateb anghenion ein dinasyddion a'n cymunedau amrywiol.

Fel rhan o'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol Cymru, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wneud y canlynol:

- ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract gynnwys ystyriaethau a fyddai'n helpu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- ystyried a fyddai'n briodol cynnwys amodau'n ymwneud â pherfformiad y contract er mwyn helpu i gyflawni tri amcan dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

---

## Cyflawni'r ddyletswydd caffael o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cynnwys deg egwyddor y dylai holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru lynu wrthynt wrth gaffael. Mae'r prif gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mabwysiadu'r datganiad polisi hwn, a'r 22 awdurdod lleol wedi cadarnhau eu bod wedi'i fabwysiadu. Mae gwaith monitro'n cael ei wneud i weld faint o gyrff sy'n ei ddilyn.

Mae'r datganiad polisi'n darparu y dylid ystyried Gwerth am Arian 'fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol'.

Mae nifer o elfennau allweddol yn rhan o'r datganiad polisi sy'n dylanwadu ar y modd y rhoddir sylw i gydraddoldeb, gan gynnwys:

- sicrhau bod polisïau allweddol fel Manteision Cymunedol yn rhan o gontractau
- symleiddio'r broses gaffael a chreu llai o rwystrau i gyflenwyr
- hysbysebu cyfleoedd i ennill contractau drwy wefan GwerthwchiGymru



- cwblhau Asesiad Risg Cynaliadwyedd wrth gynllunio proses gaffael er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ddyletswyddau cydraddoldeb pan roddir y contractau cyhoeddus ar waith.

## Prif ffrydio a gwreiddio cydraddoldeb yn y broses gaffael – y canlyniadau

Ers nifer o flynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn flaenllaw wrth lunio polisiau caffael i sector cyhoeddus Cymru sydd wedi cyfrannu at greu cydraddoldeb. Mae polisiau o bwys yn cynnwys y canlynol:

- Cynhelir Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar gyfer holl contractau Llywodraeth Cymru sy'n werth £25,000 a mwy, gan sicrhau bod dyletswyddau cydraddoldeb yn cael eu hystyried a chamau'n cael eu cymryd pan fydd hynny'n briodol yn achos holl contractau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r polisi Manteision Cymunedol yn parhau i ddefnyddio contractau'r sector cyhoeddus i roi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl difreintiedig. Mae'r dull hwn hefyd yn ceisio sicrhau bod ein cyflenwyr yn rhoi cymorth addysgol gyda phynciau pwysig fel STEM i gymunedau.

Ar 31 Mawrth 2017, o'r 308 o brosiectau cyntaf y sector cyhoeddus, a oedd yn werth £1.38 biliwn, roedd 82% o'r arian hwnnw wedi'i ail-fuddsoddi yng Nghymru, £291m ohono'n uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion Cymru, a £851m yn fuddsoddiad drwy fusnesau Cymru. Roedd 70% o'r rhain yn fusnesau bach a chanolig eu maint. Cafodd 2074 o bobl ddifreintiedig gymorth i gael gwaith, gan dderbyn dros 44,058 wythnos o hyfforddiant.

Mae Manteision Cymunedol hefyd wedi'u cynnwys fel opsiwn ym mhroses grantiau Llywodraeth Cymru, ar ffurf amod safonol wrth roi cyllid grant, ac fe'u defnyddir mewn prosiectau fel rhaglen Ysgolion yr 21in Ganrif a'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd wedi ymrwymo i ymgorffori manteision cymunedol yn y contractau sy'n rhan o'i gwmpas.

- Mae'r rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref yn mynd rhagddi ac yn rhoi cyfle i bolisiau trawsbynciol helpu i greu swyddi mewn rhai o gymunedau tlotaf Cymru. Mae gwaith caffael gyda thimau Sgiliau a Busnes Llywodraeth Cymru yn rhoi rhaglen ar waith sy'n defnyddio deddfwriaeth caffael mewn ffordd arloesol er mwyn cael yr effaith economaidd fwyaf. Mae'r rhaglen hon yn targedu ymyriadau drwy gaffael er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth cyfartal i ddinasyddion Cymru.

## Y Sail Dystiolaeth

Rydym yn ymwybodol bod y dystiolaeth ynghylch nodweddion gwarchoddedig penodol wedi bod yn weddol brin yn y gorffennol, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu'n union beth yw effaith bosibl ein polisiau, ein strategaethau a'n penderfyniadau gwariant ar y grwpiau gwarchoddedig hyn. Er gwaethaf y bylchau hyn yn y dystiolaeth, rydym yn ceisio gwneud cynnydd wrth gryfhau'r sail dystiolaeth. Rydym yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r sail dystiolaeth sydd gennym, a hynny drwy gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb wrth gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, drwy weithredu'n unol â rheoliad 7 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, drwy barhau i gynnal asesiadau o effaith ein polisiau a'n strategaethau ar gydraddoldeb, a thrwy ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig.

Yn ystod 2016-17, aeth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru ati o'r newydd i adolygu'r dystiolaeth sy'n bodoli am nodweddion gwarchoddedig: <http://gov.wales/statistics-and-research/review-evidence-inequality-wales/?skip=1&lang=cy>

Cafodd cynlluniau pellach i wella'r sail dystiolaeth eu datblygu hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth yn [adroddiad 2017 am dueddiadau'r dyfodol](#)
- crynodeb o'r hyn y mae'r data'n ei ddweud am y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r nod llesiant o greu Cymru fwy cyfartal yn yr [adroddiad cyntaf ar lesiant Cymru](#)

- dadansoddi rhagor ar y data am [gartrefi islaw'r incwm cyfartalog](#) o ran oedran, rhywedd, ethnigrwydd a statws anabledd.

At hynny, cyhoeddwyd diweddariadau ar gyfer yr allbynuau ystadegol perthnasol a ganlyn:

- Cyrhaeddiad academiaidd yn ôl nodweddion disgyblion 2016
- Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion
- Canlyniadau cyfrifiadau ysgolion
- Tablau StatsCymru ynghylch addysg bellach gan gynnwys oedran, rhywedd ac anabledd
- Deilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned yn 2015-16
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant
- Ystadegau addysg bellach
- Tablau StatsCymru sy'n rhoi data am feysydd cydraddoldeb (e.e. data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)
- Arolwg Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd a ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd, a oedd yn cael ei chyhoeddi cynt fel rhan o Arolwg Iechyd Cymru)
- Aseidiadau a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion
- Ystadegau Iechyd Cymru
- Darpariaeth tai fforddiadwy
- Tablau StatsCymru ar ddigartrefedd
- Mynediad at feddygon teulu
- Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru
- Twf Swyddi Cymru.

Rydym yn cydnabod bod rhwystrau wrth gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb sy'n aml yn cyfyngu ar y dystiolaeth sydd ar gael am grwpiau penodol, er enghraifft:

- mae cynnal arolygon mawr, o ansawdd da, yn gostus, ac mae'r is-grŵp o'r boblogaeth yn aml mor fychan byddai'n rhaid i'r sampl fod yn fawr iawn er mwyn casglu gwybodaeth ddibynadwy;
- gall fod yn anodd creu cwestiynau sydd wedi'u profi'n dda, neu greu cwestiynau newydd a fydd yn arwain at ganlyniadau cywir: er enghraifft, efallai na fydd ymatebwyr yn deall y cwestiwn neu'n

dymuno rhoi'r wybodaeth y mae rhywun yn gofyn amdani

- gall gofyn cwestiynau am bynciau sensitif yn aml bechu ymatebwyr. Gallai hyn arwain at gwynion, at sylw negyddol yn y cyfyngau, a hyd yn oed at gyfraddau ymateb is.

Serch hynny, rydym yn parhau i gasglu data yn ôl nodweddion gwarchoddedig pan fydd hynny'n ymarferol, er enghraifft, drwy gasglu manylion am oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd wrth gynnal arolygon o aelwydydd ac wrth gasglu data gweinyddol.

## Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol

Mae system cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig yn rhoi cyfle i ddangos ar lefel rhyngwladol y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo hawliau dynol. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd aruthrol cyflawni ei chyfrifoldebau rhyngwladol ym maes hawliau dynol, ac mae'n gwerthfawrogi'r sefydlogrwydd a'r arweiniad y mae'r cytuniadau hyn yn eu rhoi wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i gymryd camau a fydd yn sicrhau bod gan bobl Cymru yr hawliau a nodir yng nghytuniadau'r Cenhedloedd Unedig, sef cytuniadau a arwyddwyd ac a gadarnhawyd gan wladwriaeth y Deyrnas Unedig. Mae Pwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am bob cytuniad rhyngwladol yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud hyn drwy fonitro'r broses o weithredu'r cytuniadau a thrwy argymhell y camau pellach y dylid eu cymryd ar ôl cynnal archwiliadau cyfnodol.

Cymerodd Llywodraeth Cymru ran mewn dau o archwiliadau'r Cenhedloedd Unedig yn ystod cyfnod adrodd 2016-17, a chafodd ei chynrychioli ymhlith y dirprwyaethau a deithiodd i Genefa. Ym mis Mai 2016, cafodd gwladwriaeth y Deyrnas Unedig ei harchwilio ar sail yr adroddiad cyfnodol a gyflwynodd i'r Cenhedloedd Unedig yn 2014 ar y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Archwiliwyd y Deyrnas Unedig am yr eilwaith y flwyddyn honno ym mis Awst 2016, y tro hwn wrth edrych ar y Cyfamod Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar Sail Hil. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar adroddiad cyfnodol y Deyrnas Unedig yn 2015.

# Pennod 3 – Yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020

Mae'r bennod hon yn cydymffurfio â rheoliad 16(2)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni adrodd ynghylch y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb. Bwrw golwg yn ôl y mae'r bennod hon, gan edrych ar flwyddyn ariannol 2016-17.

## Amcanion Cydraddoldeb 2016 – 2020

Mae Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu ei Hamcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at greu Cymru decach, gan gael gwared ar y rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac yn atal pobl rhag gwireddu eu dyheadau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hamcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd ar 10 Mawrth 2016.

Buom yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid perthnasol ledled Cymru er mwyn adolygu a diwygio ein Hamcanion Cydraddoldeb. Roedd yr adborth a gawsom yn gryf o blaid cadw hanfod y gyfres gyntaf o amcanion ond gan gryfhau'r cysylltiad rhyngddynt a threchu tlodi, a chan ehangu hefyd eu cwmpas fel eu bod yn cynnwys gwaith Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol.

Gan hynny, o blith yr wyth o Amcanion Cydraddoldeb newydd, roedd pump yn ddatblygiad ar y gyfres gyntaf o amcanion ac yn mireinio'r rheini, gan sicrhau ein bod yn cynnal momentwm ac yn datblygu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn y pedair blynedd a fu. Cadwyd amcan hefyd a oedd yn canolbwyntio ar rôl Llywodraeth Cymru fel cyflogwr.

Datblygwyd dau Amcan Cydraddoldeb newydd a oedd yn adlewyrchu barn ein rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys amcan ynghylch cynhwysiant a chydlyniant cymunedol, gan ddwyn ynghyd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar gydlyniant cymunedol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a hynny o dan fwa'r Amcanion Cydraddoldeb. Ychwanegwyd amcan penodol hefyd ynghylch trechu tlodi ac anghydraddoldeb, sy'n cryfhau ein dull o weithio wrth fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith grwpiau gwarchoddedig. Dyma Amcanion Cydraddoldeb 2016 – 2020:

<b>Amcan Cydraddoldeb 1:</b>	Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.
<b>Amcan Cydraddoldeb 2:</b>	Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygyrch, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

<b>Amcan Cydraddoldeb 3:</b>	Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
<b>Amcan Cydraddoldeb 4:</b>	Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid yn unig) trais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.
<b>Amcan Cydraddoldeb 5:</b>	Cyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy adnabod rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.
<b>Amcan Cydraddoldeb 6:</b>	Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.
<b>Amcan Cydraddoldeb 7:</b>	Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.
<b>Amcan Cydraddoldeb 8:</b>	Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020

Mae rheoliad 3(2)(a)(i) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau yr ydym wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni pob Amcan Cydraddoldeb. Gwneir hyn fel arfer ar ffurf Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 ym mis Rhagfyr 2016 ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd. Cafodd camau gweithredu manwl eu creu er mwyn cyfrannu tuag at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb diwygiedig, a'r cyfan wedi'i seilio ar waith ar draws portffolios Llywodraeth Cymru.

Wrth greu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rhoddwyd sylw i'r dystiolaeth ac ymgysylltwyd â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a sefydliadau'r

trydydd sector. Mae'r Cynllun yn benodol o strategol, ac mae'n cyfeirio at ystod o waith a fydd yn ein helpu i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r dull hwn yn galluogi'r rheini sydd â diddordeb yn y maes i roi sylw manylach i'r pethau sydd bwysicaf iddynt hwy.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Dangosyddion Cydraddoldeb

Rydym wrthi'n datblygu cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion cydraddoldeb, a hynny ar sail dangosyddion cenedlaethol pan fydd hynny'n briodol. Rydym yn cydnabod bod y data'n gyfyngedig yn sgil maint bychan samplau yng Nghymru, ac felly nid yw wastad yn bosibl rhannu data yn ôl ethnigrwydd ac anabledd, er enghraifft. Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein dangosyddion cydraddoldeb wrth i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol esblygu a newid.

# Crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn 2016-17

## Pa mor effeithiol yw camau gweithredu Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn ceisio rhoi sylw i anghydraddoldebau sydd wedi bodoli a gwreiddio'n ddwfn ers cyfnod hir, a'r rheini'n aml yn berthnasol i sawl cenhedlaeth o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gan hynny mae'n hanfodol bod ffocws hirdymor i'n camau gweithredu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn. Bydd angen amser i greu Cymru wirioneddol gyfartal a chynhwysol, ond ein bwriad yw dangos cynnydd a chanlyniadau y gellir eu mesur.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 ym mis Rhagfyr 2015. Mae hyn yn golygu mai cymharol fyr oedd y cyfnod a oedd ar gael i werthuso pa mor effeithiol fu'r camau a gymerwyd yng nghyfnod adrodd 2016-17, neu i ganfod unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y data. Serch hynny, rydym wedi cymryd nifer o gamau yn ystod 2016-17 i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb.

Caiff asesiad manylach ynghyd â chyfres gynhwysfawr o ddangosyddion eu darparu yn adroddiadau blynyddol y dyfodol, a disgwyliwn allu dangos yn glir y cynnydd a wnaed. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso ei phrif bolisiau a'i rhaglenni, ac mae gan lawer o'r rhain amcanion i leihau anghydraddoldebau ym meysydd iechyd, addysg, yr economi a chanlyniadau cymdeithasol.

## Amcan Cydraddoldeb

### Amcan Cydraddoldeb 1:

Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant.

Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

## Crynodeb o'r Cynnydd a Wnaed

### Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o God Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a hwnnw'n cyfeirio'n benodol at ddeddfwriaeth cydraddoldeb a darparu gwasanaethau mewn ffordd gyfartal. Yn ogystal â rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a gofalwyr.

### Fframweithiau arolygu newydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Cyflwynodd AGGCC fframweithiau arolygu newydd ar gyfer Gofal Plant, Chwarae a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ebrill 2016) a Chartrefi Gofal Preswyl Oedolion a Phlant (Ebrill 2016).

Cafodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 eu hymgorffori yn y fframweithiau arolygu ac yng nghanllawiau'r arolygwyr.

## Amcan Cydraddoldeb

## Crynodeb o'r Cynnydd a Wnaed

### Amcan Cydraddoldeb 2:

Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygyrch, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

### Gwybodaeth a chyngor am gyfraith lles cymdeithasol

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu gennym ym mis Rhagfyr 2016 ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor am gyfraith lles cymdeithasol, a sicrhau bod modd defnyddio gwasanaethau cyngor o ansawdd da mewn ffordd gyfartal. Mae'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn parhau i gydweithio â'r sector cyngori, ynghyd â'r rheini sy'n cyllido ac yn comisiynu gwaith cyngori, er mwyn sicrhau dull aml-asiantaeth a strategol o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor am les cymdeithasol ledled Cymru.

### Gwybodaeth a chyngor am Gynhwysiant Ariannol

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol gennym ym mis Rhagfyr 2016.

Mae'n cael ei weithredu ar y cyd â sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, undebau credyd, a darparwyr gwybodaeth a chyngor, gyda chefnogaeth y Grŵp Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol. Mae aelodau'r grŵp hefyd yn llysgenhadon ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant ariannol a gallu ariannol yn eu sectorau eu hunain. Mae'r gwasanaethau hyn yn ganolog i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle teg mewn bywyd, drwy eu helpu i ddeall yn well eu hawliau o ran lles cymdeithasol, i fanteisio ar yr hawliau hynny ac i wneud dewisiadau gwybodus. Yn ystod 2016-17, drwy gyllid Gwasanaethau Cyngori Rheng Flaen Llywodraeth Cymru, ymatebodd sefydliadau i dros 48,000 o geisiadau am wybodaeth a chyngor, gan helpu pobl i sicrhau dros £12.7 miliwn mewn incwm budd-daliadau lles. Helpodd y rhaglen Cyngor Gwell, Bywydau Gwell dros 21,250 o bobl, gan sicrhau dros £20.8 miliwn mewn incwm budd-daliadau lles yn 2016-17.

### Amcan Cydraddoldeb 3:

Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

### Prentisiaethau

Rydym yn gweithio i sicrhau bod prentisiaethau ar gael i bawb.

Yn 2016-17 cynhaliwyd cyfarfodydd cydraddoldeb ac amrywiaeth bob yn ail fis gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith.

Cynhaliwyd gweithdy cydraddoldeb ac amrywiaeth gennym, gan roi cyngor ac arweiniad ymarferol er mwyn datblygu negeseuon wedi'u targedu a oedd yn hyrwyddo prentisiaethau ymhlith dysgwyr o gefndiroedd amrywiol.

Casglwyd 36 o astudiaethau achos gennym hefyd, gan ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith drwy Gymru, gan ganolbwyntio ar bobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd yr astudiaethau achos hyn yn cael eu lledaenu fel enghreifftiau o arferion da ymhlith y rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith.

## Amcan Cydraddoldeb

## Crynodeb o'r Cynnydd a Wnaed

### Amcan Cydraddoldeb 4:

Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid yn unig) trais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

### Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb – Fframwaith Gweithredu

Mae'r fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb yng nghyd-destun y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2016-17, crëwyd cynllun cyflawni i gyd-fynd â'r fframwaith, a hwnnw i'w ddiweddarau bob blwyddyn, yn ogystal â rhoi cyllid ar gyfer canolfan gymorth ac adrodd genedlaethol ar gyfer troseddau casineb.

Drwy ymgyrchu'n gadarnhaol a rhoi hyfforddiant, llwyddwyd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith dioddefwyr a gwasanaethau er mwyn canfod achosion posibl o droseddau casineb. Parhawyd i weithio'n strategol drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys yr heddluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â chynrychiolwyr o asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Cymorth i Ddioddefwyr.

### Amcan Cydraddoldeb 5:

Cyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy adnabod rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

### Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth am ddwy flynedd, gan gynnwys yn 2016-17, er mwyn helpu pobl o gefndiroedd amrywiol i fod yn fwy gweithgar mewn democratiaeth leol ac i ystyried sefyll mewn etholiadau. Enwebodd pob awdurdod lleol hyrwyddwr o blith y cynghorwyr i annog eu cyngor i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, e.e. gweithiodd un hyrwyddwr gyda mosgiau lleol a grwpiau o fenywod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd gan y rhaglen fentora 65 o fentoriaid a 51 o bobl yn cael eu mentora o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Safodd 16 o'r rheini mewn etholiadau, ac etholwyd pedwar ohonynt.

Bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu gwerthusiad o'i rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a fydd yn helpu i roi sail i gynlluniau yn y dyfodol i wella cynrychiolaeth grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys ystyried y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan mewn democratiaeth.

### Amcan Cydraddoldeb 6:

Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

### Cydlyniant Cymunedol

Cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2016-17 ar Gydlyniant Cymunedol ym mis Mawrth 2016, er mwyn parhau i gryfhau, prif ffrydio a chynnal dulliau lleol a rhanbarthol o weithio ar gydlyniant cymunedol, a hynny mewn saith maes, sef troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, Sipsiwn a Theithwyr, mewnfudo, trechu tlodi, cynnal cydlyniant cymunedol a monitro tensiwn. Gweithiodd wyth o Gyd-gysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, gan helpu i gyflawni'r amcanion hyn drwy Gymru gyfan. Cafodd eu gwaith ei fonitro'n unol â'r canlyniadau yn y rhaglen genedlaethol.

## Amcan Cydraddoldeb

## Crynodeb o'r Cynnydd a Wnaed

### Amcan Cydraddoldeb 7:

Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.

### Nyth – Cynllun Tlodi Tanwydd

Nyth yw cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhoi cymorth a chyngor am ynni. Gall yr aelwydydd hynny sydd ar yr incwm isaf ac sy'n gymwys o dan y meini prawf fanteisio ar becyn wedi'i gyllido o gamau effeithlonrwydd ynni.

Yn 2016-17, rhoddodd Llywodraeth Cymru £19.5 miliwn ar gyfer Nyth a darparwyd £3.9 miliwn yn ychwanegol drwy'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni, sy'n gynllun drwy Brydain.

### Plant Iach Cymru

Lansiwyd rhaglen Plant Iach Cymru ym mis Medi 2016. Mae'n dangos pa gymorth y gall plant a'u teuluoedd ei ddisgwyl gan eu byrddau iechyd, o gyfnod trosglwyddo'r gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o gamau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, ac mae'n rhoi cyngor ac arweiniad i rieni ac yn helpu pobl i ddewis ffordd iach o fyw.

### Amcan Cydraddoldeb 8:

Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

### Y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth o'n rhwydweithiau amrywiaeth i staff, ein Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Ochr yr Undebau Llafur ac adnoddau dynol. Cynrychiolydd Bwrdd Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb sy'n ei gadeirio.

Ar ôl ymgynghori â staff ar draws y sefydliad, datblygodd a chytunodd y Grŵp ar gynllun gweithredu tair blynedd sy'n dangos sut y bydd y sefydliad yn cyflawni'r Amcan Cydraddoldeb hwn. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion a bydd y Grŵp yn monitro'n rheolaidd y camau sy'n cael eu cymryd.

### Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff

Mae ein Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff yn rhoi llais i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Maent yn rhoi cyfleoedd i rwydweithio er mwyn rhoi cymorth i gydweithwyr sy'n wahanol i'r cymorth sydd ar gael fel rheol. Mae'n gyfle i gyfarfod pobl eraill sydd yn yr un sefyllfa a rhannu problemau a syniadau. Maent hefyd yn cynghori llunwyr polisi mewnol, ac yn rhoi cyfleoedd i staff feithrin neu ddatblygu sgiliau newydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru bedwar o grwpiau sy'n rhan o'r rhwydweithiau amrywiaeth staff:

- Grŵp Ymwybyddiaeth a Chymorth ym maes Anabledd
- Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig (MESN)
- Rhwydwaith Menywod Gyda'i Gilydd
- Rhwydwaith PRISM – rhwydwaith staff Llywodraeth Cymru ym maes cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.



# Edrych yn ein Blaenau

Nawr bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i gyhoeddi, ein her nesaf yw sicrhau bod y camau a gymerwn yn parhau i gyfrannu'n llawn at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb. Byddwn yn monitro'n barhaus pa mor effeithiol yw'r camau presennol ac yn cytuno ar rai newydd pan fyddwn yn credu y gallwn wneud mwy. Byddwn yn rhoi diweddariad tryloyw a chadarn o'r cynnydd blynyddol a wneir o dan yr amcanion, gan gyhoeddi'r diweddariad hwnnw ar ein gwefan.

---

Byddwn hefyd yn gwneud rhagor o waith i ddatblygu dangosyddion a fydd yn ein helpu i fesur pa mor effeithiol yw ein gweithgareddau wrth gael gwared ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth fel y gallwn fod yn fodlon bod effeithiau ein polisiau a'n penderfyniadau'n cael eu hystyried yn iawn.

2016-17 oedd blwyddyn olaf y rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, ac ar ôl cynnal adolygiad ac ymgynghoriad (fel y disgrifir uchod), mae wedi'i dilyn gan rownd newydd o gyllid ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2020. O dan y rhaglen newydd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys saith o asiantaethau arweiniol i roi cymorth i unigolion a chymunedau drwy Gymru, a hynny ym meysydd hil (EYST), rhywedd (WEN Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Tros Gynnal Plant); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru); cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (Stonewall Cymru); a throseddau casineb (Cymorth i Ddiodefswyr Cymru). Mae wyth o Gydgyssylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru, yn helpu gyda'r gwaith hwn, gan weithio'n rhanbarthol o fewn yr awdurdodau lleol.

Ein Rhaglen Lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen', yw ein cynllun strategol pum mlynedd, ac mae'n amlinellu'r hyn y mae Gweinidogion Cymru am ei gyflawni dros y tymor nesaf (2016 – 2021). Mae'n rhaglen feiddgar, strategol ac uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau gwirioneddol ym mywydau pob dydd pobl Cymru. Mae 'Symud Cymru Ymlaen' yn nodi'r pedwar maes lle gallwn gael yr effaith fwyaf, a'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd. Y rhain yw:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egniol
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig.

Bydd ein pedair thema yn ystyried sut y gallwn gael yr effaith fwyaf bosibl drwy bopeth a wnawn.

Mae 'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol' yn rhoi sylw i'r ymrwymïadau hynny, yn eu gosod yn eu cyd-destun hirdymor, ac yn dangos sut y byddant yn cael eu cyflawni drwy gyfuno ymdrechion holl sector cyhoeddus Cymru.

Ochr yn ochr â'r strategaeth genedlaethol, rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad llesiant sy'n esbonio sut yr ydym wedi defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i ddatblygu'r strategaeth genedlaethol a chanfod un gyfres o amcanion a chamau ym maes llesiant y gall y llywodraeth eu cymryd.

# Atodiad 1

## Ein Dyletswyddau Cyfreithiol

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a hynny gydag un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu oherwydd:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

'Nodweddion gwarchoddedig' yw'r enw ar y categorïau hyn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno 'dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus'. Mae'n rhaid i'r rheini sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, ynghyd â mathau eraill o ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini sydd heb y nodwedd honno
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini sydd heb y nodwedd honno.

Nod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yw sicrhau bod y rheini sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd yn ystyried sut i hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni eu busnes o ddydd i ddydd. I Lywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys llunio polisiâu, darparu gwasanaethau, a'r berthynas â staff.

### Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (‘Y Rheoliadau’)

Yng Nghymru, mae'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf (sef 'awdurdodau perthnasol Cymru') hefyd yn gorfod cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, a restrir yn y Rheoliadau. Nod y dyletswyddau penodol yw sicrhau bod cyrff yn gweithio'n well i gyflawni'r ddyletswydd o dan adran 149 o'r Ddeddf. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyhoeddi amcanion cydraddoldeb ynghyd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cyflawni gofynion o ran ymgysylltu, adrodd am gynnydd, casglu data ac ati. Mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio â rheoliad 16 o'r Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Mae'r rheoliad hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n dangos sut y mae Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol. Nod yr adroddiad yw rhoi tryloywder ynghylch y cynnydd rydym yn ei wneud tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y camau rydym wedi eu cymryd i ganfod a chasglu'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb, ynghyd ag unrhyw resymau dros beidio â bod â gwybodaeth yn ein meddiant a ninnau wedi dweud ein bod am gasglu'r wybodaeth honno
- Sut yr ydym wedi defnyddio'r wybodaeth sydd gennym i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru
- Y cynnydd rydym wedi'i wneud er mwyn cyflawni pob amcan cydraddoldeb
- Datganiad ynghylch pa mor effeithiol yw:
  - a) ein trefniadau i ganfod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb
  - b) pa gamau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni pob amcan cydraddoldeb.

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys y ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau ein bod yn rhoi digon o sylw i hyrwyddo cydraddoldeb, ynghyd â chyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.